SL(5)481 – Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019

Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn nodi gwybodaeth y mae rhaid i naill ai’r landlord neu ei asiant gosod eiddo ei darparu i ddarpar ddeiliad contract, cyn y telir blaendal cadw. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu’r ffordd y mae rhaid darparu’r wybodaeth.

Os na ddarperir yr wybodaeth yn rheoliad 2(2) i ddarpar ddeiliad contract cyn y telir blaendal cadw, ni chaiff y landlord na’r asiant gosod eiddo ddibynnu ar yr eithriadau a nodir ym mharagraffau 8, 9 a 10 o Atodlen 2 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 a rhaid ad-dalu’r blaendal cadw. Mae rheoliad 2(3) yn nodi’r ffordd y mae rhaid darparu’r wybodaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Gwybodaeth Benodedig) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019"). Gosodwyd Rheoliadau 2019 ar 15 Tachwedd, gan ddod i rym ar 13 Rhagfyr 2019. Ers gosod Rheoliadau 2019, mae’r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cael gohebiaeth gan landlordiaid, asiantwyr eiddo a chyrff cynrychioliadol yn amlinellu eu pryderon ynghylch y Rheoliadau. Ymhlith y pryderon oedd y cyfnod o amser a fyddai gan landlordiaid ac asiantaethau gosod tai i weithredu'r newidiadau a'r ffaith y byddai'n ofynnol i landlordiaid ddarparu cyfeiriad cyn i flaendal gael ei gymryd gan ddeiliad contract. Mae’r pryderon wedi’u hystyried yn y Rheoliadau hyn.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad.

1. Nodwn y torrir rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad dros dorri’r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 6 Rhagfyr 2019.

Mae'r Rheoliadau’n torri'r rheol 21 diwrnod gan fod Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen dirymu Rheoliadau 2019 oherwydd pryderon a godwyd gan randdeiliaid cyn iddynt ddod i rym ar 13 Rhagfyr. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn nodi esboniadau Llywodraeth Cymru ac nid oes ganddynt unrhyw bwyntiau pellach i'w codi.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
17 Rhagfyr 2019